

---

## Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi



### Landfill Disposals Tax Communities Scheme

---

## Cylch 5 Dyfarniadau Grant 20-21

Mudiad	Thema	Lleoliad	Disgrifiad o'r Prosiect	Grant a Ddyfarnwyd
1st Kinnerton Scout Group	Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Sir y Fflint	Ailwampio pencadlys 1980au'r Sgowtiaid yn Higher Kinnerton, ei wneud yn ystyriol o'r amgylchedd, ei foderneiddio, sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn ddiddos, lleihau ei ôl troed carbon, darparu cyfleusterau priodol i bobl anabl a'i wneud yn adeilad hygyrch i bawb yn y Gymuned am flynyddoedd i ddod.	£19,400.00

ACE – Gweithredu yng Nghaerau a Threlái	Lleihau Gwastraff	Caerdydd	Mae ACE yn bwriadu sefydlu gwasanaeth benthycy cymunedol ar gyfer eitemau'r cartref yng ngorllewin Caerdydd. Bydd ein 'llyfrgell o bethau' yn cynorthwyo trigolion lleol i ymestyn cyllidebau cartref, dysgu sgiliau newydd a lleihau gwastraff. Bydd hyn yn ategu mentrau presennol sy'n ffynnu yng nghanolfan gymunedol Dusty Forge a chysylltu â rhwydwaith Benthycy Cymru.	£47,195.20
Amgueddfa Cymru - National Museum Wales	Bioamrywiaeth a Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Caerdydd	Byddwn yn creu gardd gynaliadwy dan arweiniad y gymuned yn Amgueddfa Cymru, Caerdydd, a fydd yn cynnwys wal â chawell a fydd yn cefnogi bioamrywiaeth a rhywogaethau o beillwyr. Bydd gwirfoddolwyr yn datblygu sgiliau ac yn dysgu am yr amgylchedd, garddio a chynaliadwyedd. Bydd yr ardd a fydd yn hygyrch i'r cyhoedd yn cysylltu â'n casgliad yn yr amgueddfa ac yn cryfhau ein cydberthnasau â phartneriaid cymunedol.	£48,905.00
AVTC Ltd	Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Castell-nedd Port Talbot	- trwsio 300 metr o lwybrau cerdded sydd wedi erydu gan y tywydd ar ein safle cyfleuster cymunedol mynediad agored - atal erydu pellach trwy balu ffosydd draenio gyda pheiriant cloddio bach a gyrrwr wedi'u llogi	£8,842.80

			- cynyddu nifer y biniau sbwriel ar y safle trwy brynu a gosod 3 bin sbwriel plastig wedi'i ailgylchu ychwanegol	
Awel Aman Tawe	Lleihau Gwastraff a Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Castell-nedd Port Talbot	Rydym yn gobeithio troi hen ysgol gynradd Cwmgors yn hwb cymunedol hygrych, carbon isel ar gyfer artistiaid, entrepreneuriaid ac addysgwyr. Bydd yn cynnwys mannau stiwdio, swyddfa ac ystafell ddosbarth cydweithredol, llawn offer. Gyda'r nod o fod yn ddigarbon erbyn 2030, bydd yn cynorthwyo pobl leol i ddatblygu a rhannu syniadau ymhell i'r dyfodol.	£49,999.00
Bwyd Bendigedig Port / Incredible Edible Porthmadog	Bioamrywiaeth a Lleihau Gwastraff a Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Gwynedd	Nod prosiect gardd addysgol Ysgol Eifion Wyn yw addysgu arferion da mewn garddio bwyd trefol cynaliadwy a bod yn esiampl ysbrydoledig i ysgolion a sefydliadau eraill. Trwy fynd ati'n gydweithredol i greu'r ardd hon, bydd yn creu economi adfywiol, gylchol a bydd pobl yn ennill sgiliau bywyd, ynghyd â gwerthfawrogiad a pharch at bob system fyw.	£49,999.00

Canolfan Glowyr Caerffili ar gyfer y Gymuned	Bioamrywiaeth a Lleihau Gwastraff a Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Caerffili	Creu 'Gardd Newid Hinsawdd ar gyfer y Dyfodol' gynaliadwy i ddangos sut gall camau gweithredu uniongyrchol, ymarferol fod o fudd i gymuned mewn llawer o ffyrdd, gweithredu lleol am effaith fyd-eang: Gwnewch y pethau bychain mewn bywyd'	£49,897.60
Dinas i'r Môr	Bioamrywiaeth	Caerdydd	Bydd ehangu Ail-lenwi Cymru yn annog pobl yn ardal Caerdydd i fyw gyda llai o blastig, ac yn cynorthwyo cwmnïau sy'n symud o ddeunydd pacio untro i systemau ail-lenwi ac aildefnyddio. Bydd yr ap Ail-lenwi am ddim yn cysylltu defnyddwyr â lleoedd i ail-lenwi bwyd, diod a nwyddau groser.	£49,999.00
Gweithredu Hinsawdd Caerffili	Bioamrywiaeth a Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Abertawe	Coedwig Fechan Caerffili fydd y Goedwig Fechan gyntaf yng Nghymru. Menter dan arweiniad y gymuned a fydd yn hybu bioamrywiaeth drwy blannu coed ac ymhél â Gwyddoniaeth Dinasyddion. Gan gefnogi llesiant cymunedol, bydd Coedwig Fechan Caerffili yn lle i'r gymuned leol ac ysgolion ymhél â natur, rhannu a dysgu.	£13,212.00

Clwb Genweirio Cei Connah a'r Fro	Bioamrywiaeth a Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Sir y Fflint	Darparu Lleoliad Pysgota blaenllaw cwbl gynhwysol ar gyfer pawb, o blant ifanc i bensynwyr, gan gynnwys grwpiau iechyd meddwl ac anabl. Byddant yn cael budd o chwaraeon a'r amgylchedd, a fydd yn cael ei gynnal a chadw'n dda ac yn hygyrch i bawb.	£32,671.00
Cyngor Dosbarth Sgowtiaid CRAI	Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Casnewydd	Gobeithio gwella gallu eu Parc Gweithgareddau Sgowtiaid i gyflwyno Cyrsiâu Sgiliau Ymarferol, yn seiliedig ar yr amgylchedd naturiol, i'r Sgowtiaid a Grwpiau leuenctid a fydd yn ymweld â'r lle.	£49,999.00
Drive Limited	Bioamrywiaeth a Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Rhondda Cynon Taf	Gwneud gwelliannau i'r safle prosiect 'Eco Autism Specialist', gan gynnig profiadau awyr agored i bobl ag awtistiaeth. Bydd y cyllid yn darparu mannau economaidd- effeithlon ar gyfer cyfarfodydd a gweithgareddau lle gallwn feithrin cysylltiadau â theuluoedd a'r gymuned ehangach, gan gynnwys profiadau mewn tyfu a phlannu, bywyd gwyllt a natur.	£26,727.82
Cwmni Buddiannau Cymunedol Enbarr Foundation	Bioamrywiaeth a Lleihau Gwastraff a Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Sir y Fflint	Nod Enbarr yw ailsefydlu gerddi hanesyddol y gweithfeydd dur a'r safle amgylchynol llawn tyfiant a'u troi'n ddôl/gwlypdiroedd a choetir gwyllt cynaliadwy. Bydd y rhain yn hygyrch i'r	£44,499.00

			holl gymuned eu mwynhau, yn addysgu pobl am fioamrywiaeth a sgiliau cynaliadwy ac yn ymwreiddio bioamrywiaeth ar gyfer amrywiaeth eang o blanhigion, bywyd gwylt a safle ehangach.	
FareShare Cymru	Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Sir Gaerfyrddin	Mae FareShare Cymru yn gweithio i drechu newyn trwy fynd i'r afael â gwastraff bwyd. Rydyn ni'n cymryd bwyd sydd ar ôl gan y diwydiant bwyd ac yn ei ailddosbarthu i fudiadau sy'n helpu i fwydo pobl mewn angen. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ein galluogi i ehangu ein gwasanaeth i Orllewin Cymru, gan gefnogi 10 mudiad lleol.	£49,999.00
Gwyrddio Penarth	Lleihau Gwastraff	Caerdydd	Trwy aildefnyddio eitemau cartref diangen/wedi torri a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi, bydd ein prosiect Benthyc ym Mhenarth yn <ul style="list-style-type: none"> <li>- cynyddu mynediad fforddiadwy, cyfartal at eitemau defnyddiol i'r cartref ac yn rhannu sgiliau</li> <li>- lleihau'r adnoddau a ddefnyddir</li> <li>- atal gwastraff</li> <li>- annog datblygiad economi gylchol</li> <li>- buddiol i ansawdd bywyd trigolion lleol</li> <li>- hybu gwydnwch cymunedol</li> </ul>	£49,999.00

Harlech Library and Institute (yr Hen Lyfrgell)	Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Gwynedd	Bydd y prosiect hwn yn gwella effeithlonrwydd ynni'r adeilad trwy fynd i'r afael â'r angen taer i amnewid y system wresogi hynafol am system gwres canolog rhad-ar-ynni y gellir ei rheoli a fydd yn cynhesu pob rhan o'r adeilad 3 llawr, gosod inswleiddiad atig, trin lleithder a gwella'r amgylchedd allanol.	£20,000.00
HF Trust Ltd	Lleihau Gwastraff	Sir y Fflint	Prosiect uwchgylchu yn y Fflint yw Ail Gyfle a fydd yn arallgyfeirio eitemau diangen o safleoedd tirlenwi. Byddwn yn cynnig cyfleoedd hyfforddi i 75 o oedolion ag anableddau dysgu/awtistiaeth, ac 20 o wirfoddolwyr, i drawsnewid beiciau, dodrefn a nwyddau trydanol er mwyn eu gwerth am brisiau fforddiadwy i'r gymuned leol.	£19,986.04
Live Music Now Cymru	Bioamrywiaeth a Lleihau Gwastraff	Casnewydd	Prosiect cyfunol i godi ymwybyddiaeth o gelfyddydau a'r amgylchedd. Bydd 'Can Do' a Live Music Now Cymru yn rhoi'r cyfle i 40 o bobl ifanc ag AAAA (anghenion addysgol arbennig ac anabledd) yn ardal Casnewydd/Gwent greu offerynnau cerdd o ddeunyddiau wedi'u haddasu at ddibenion gwahanol, ysgrifennu cân am yr amgylchedd a dysgu am ailgylchu/compostio ar fferm leol.	£5,084.08

<p>Ymddiriedolaeth Gymunedol Neuadd Llanrhymni</p>	<p>Lleihau Gwastraff a Gwelliant Amgylcheddol Ehangach</p>	<p>Caerdydd</p>	<p>Cynyddu mynediad fforddiadwy a chyfartal at eitemau defnyddiol i'r cartref, bwyd, dillad, compostio a rhannu sgiliau yn Llanrhymni, gan leihau'r adnoddau a ddefnyddir, atal gwastraff trwy drwsio ac ailddefnyddio eitemau diangen/wedi torri a'u harallgyfeirio o safleoedd tirlenwi. Bydd hyn yn annog datblygiad economi gylchol wydn leol ac yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd.</p>	<p>£49,716.91</p>
<p>Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru</p>	<p>Bioamrywiaeth</p>	<p>Gwynedd</p>	<p>Bydd y prosiect yn:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. recriwtio, hyfforddi a chynorthwyo gwirfoddolwyr yn ymarferol i gynnal a gwella'r clytwaith o gynefinoedd yng Ngwarchodfa Natur Gwaith Powdwr, Penrhyndeudraeth, gan gynnwys coetir, glaswelltir a rhostir; ac yn</li> <li>2. ymwreiddio bioamrywiaeth ymhlith y gymuned leol drwy sesiynau addysgiadol ar gyfer grwpiau o ddefnyddwyr amrywiol a dehongliad newydd wedi'i gyd-gynhyrchu.</li> </ol>	<p>£49,762.92</p>



Oasis Caerdydd	Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Caerdydd	Y prosiect yw i osod systemau gwresogi yn y rhannau o'r adeilad heb wres sy'n defnyddio gwresogyddion cludadwy aneconomaidd ar hyn o bryd. Moderneiddio'r system ddŵr ar gyfer yr holl adeilad – ar hyn o bryd, defnyddir y pibellau gwreiddiol sy'n rhydu ac yn lleihau'r pwysedd dŵr. Gosod ystafell wlyb i gefnogi cleientiaid.	£49,166.86
Overton Community Growers	Bioamrywiaeth	Wrecsam	Ceisio rhoi hwb i fioamrywiaeth trwy greu pwll bywyd gwyllt, plannu blodau gwyllt, prynu peiriant casglu glaswellt, creu to gwyrdd, gosod blychau i dylluanod gwyn a rheoli rhywogaethau goresgynnol. Byddwn yn cynnwys amrywiaeth eang o bobl, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn y prosiect.	£21,941.43
Plant Dewi	Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Sir Benfro	Bydd tadau ardal Doc Penfro yn gwneud gwelliannau amgylcheddol lleol mewn partneriaeth â'r gymuned ac yn sefydlu rhandir cymunedol i gynhyrchu bwyd ar gyfer banciau bwyd a chyfranogwyr y prosiect.	£46,735.00

Refurbs Sir y Fflint	Lleihau Gwastraff	Sir y Fflint	Bydd y prosiect yn datblygu ac yn cyflwyno gweithgareddau cafffi trwsio mewn cyfleuster newydd ym Mwcle, gan gynnwys: sesiynau trwsio gyda chyfleoedd gwirfoddoli; gweithdai ac arddangosiadau fel sesiynau uwchgylchu, ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ar agweddau ar leihau gwastraff ac ymddygiadau sy'n ystyried yr amgylchedd.	£43,643.86
Rhondda Ward Old Age Welfare Association	Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Rhondda Cynon Taf	Trwsio ac ailwampio Neuadd Gymunedol Trehopcyn: ailddefnyddio adeilad wedi'i esgeuluso er mwyn cynnig lle creadigol bob dydd i bobl Pontypridd a'r fro	£45,102.00
Smile Plastics	Lleihau Gwastraff	Siroedd lluosog	Mae Smile Plastics yn uno â 'CWM Environmental and Surfability' i arallgyfeirio gwastraff plastig o'r môr a gwastraff lleol o 3 gorsaf wastraff penodol a'u troi'n gynhyrchion hir oes y gellir eu defnyddio; wedi'u casglu gan y gymuned leol, wedi'u dylunio gyda'r gymuned leol, wedi'u gwneud gan 'Smile Plastics' ar gyfer y gymuned leol	£49,999.00
Eglwys a Neuadd Gymunedol St. Margaret	Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Wreccsam	Bydd y prosiect hwn yn helpu i ddiogelu hyfywedd y neuadd gymunedol boblogaidd hon yn y dyfodol ac yn cyflwyno buddion cymdeithasol ac amgylcheddol parhaol. Y nod yw darparu	£25,000.00

			to newydd wedi'i inswleiddio er mwyn gwella cyflwr yr adeilad, ac i ddathlu ei adferiad ar ôl y problemau a achoswyd gan bandemig y Coronafeirws.	
Partneriaeth Ieuenctid a Chwarae Wreccsam	Bioamrywiaeth a Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Wreccsam	Adfer llwybr glan yr afon y tu allan i'n maes chwarae antur, gan greu lle mwy diogel i blant a'r gymuned ehangach ei ddefnyddio. Cefnogi sesiynau chwarae a gweithgareddau amgylcheddol a grwpiau o wirfoddolwyr i gynnal a chadw'r lle a gwella bioamrywiaeth. Creu potensial i wella drwy ailgysylltu pobl a lle.	£49,883.92
Zero Carbon Llanidloes	Bioamrywiaeth	Powys	Bydd y Prosiect Gwneud Gwair Cymreig yn dod â phobl ynghyd o bob rhan o'n cymuned i ddathlu ac adfer y cynefin hanfodol hwn, a arferai gefnogi cymaint o'r bywyd, diwylliant ac amrywiaeth yn ein mynyddoedd a chaeau, i'w briod le yn ein tirwedd a'n hymwybyddiaeth.	£19,452.25

### Dyfarniad o Bwysigrwydd Cenedlaethol

Mudiad	Thema	Lleoliad	Disgrifiad o'r Prosiect	Grant a Ddyfarnwyd
--------	-------	----------	-------------------------	--------------------

Trwsio a Rhannu (sy'n masnachu fel Caffi Trwsio Cymru)	Rheoli Gwastraff a Gwelliant Amgylcheddol Ehangach	Casnewydd	Datblygu a pheilota technoleg sy'n hwyluso ac yn monitro gwerth trwsio ac ailddefnyddio'n economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol yng Nghymru. Bydd y cynllun peilot yng Nghasnewydd yn cyflwyno enghraifft safon aur o gyfleuster trwsio ac ailddefnyddio hygyrch yng nghanol cymuned sy'n lleihau gwastraff ac ôl troed carbon Cymru.	£249,986.72
---	---	-----------	---	-------------